



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

49/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:

TACHWEDD 29, 2018

Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth yng Nghymru 2017

Adroddiad ar gyfer Croeso Cymru

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth yng Nghymru - 2017

Ymchwil ar ran Croeso Cymru

Fiona McAllister, Beaufort Research Ltd.

The logo for Beaufort Research, featuring the word "beaufortresearch" in white lowercase letters on a dark purple rectangular background.

beaufortresearch

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Birgitte Magnussen

Uwch Swyddog Ymchwil

Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Llywodraeth Cymru

Canolfan QED, Ystad Ddiwydiannol Trefforest

Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 5YR

Rhif ffôn: 0300 062 5296

E-bost: birgitte.magnussen@gov.wales

ISBN: 978-1-78964-342-8

Tachwedd 29, 2018

© Hawlfraint y Goron 2018

The logo for the Open Government Licence (OGL), consisting of the letters "OGL" in a bold, black, sans-serif font.

OGL

Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

	Rhestr o acronymau a sut i ddarllen y tablau.....	1
	Crynodeb gweithredol	3
1.	Cyflwyniad.....	6
1.1	Cefndir.....	6
1.2	Diffiniad o atyniad twristiaeth.....	6
1.3	Amcanion.....	7
1.4	Cefndir economaidd a hinsoddol 2017.....	7
2.	Methodoleg.....	9
2.1	Cynnal y gwaith ymchwil.....	9
2.2	Dosbarthiad a chyfradd ymateb yr arolwg.....	9
3.	Y deg atyniad uchaf am ddim a'r rhai â thâl (yn ôl nifer ymweliadau).....	12
3.1	Y deg atyniad uchaf â thâl.....	12
3.2	Y deg atyniad uchaf am ddim.....	13
4.	Nifer yr ymweliadau 2017.....	14
5.	Dadansoddiad cymharol o ymweliadau ag atyniadau twristiaeth 2017 / 2016.....	23
5.1	Cymariaethau cyffredinol.....	23
5.2	Cymharu tâl mynediad ar gyfer atyniadau â thâl.....	26
6.	Gweithrediadau.....	31
6.1	Symudiad refeniw gros.....	31
6.2	Cyflogaeth 2017.....	33
6.3	Gwariant marchnata 2017/2016.....	36
7.	Proffil ymwelwyr 2017.....	38
8.	Atyniadau a oedd wedi ymateb yn 2017.....	42

ATODIADAU

Atodiad 1: Holiadur

Atodiad II: Nifer yr Ymweliadau 2014-2017

Rhestr o acronymau a sut i ddarllen y tablau

Hoffai Croeso Cymru a Beaufort Research ddiolch i'r holl gynrychiolwyr a'r gweithredwyr yn y sector atyniadau sydd wedi darparu gwybodaeth ar gyfer yr arolwg y mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio arni. Heb eu cymorth bob blwyddyn, ni fyddai'n bosibl casglu'r ffigurau hyn.

Amcangyfrifon / ffigurau ymwelwyr nad oedd ar gael

Mae'r ffigurau a nodir yn yr adroddiad hwn wedi'u nodi gyda phob ewyllys da ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gan berchnogion yr atyniadau.

Os cafodd y ffigurau eu hamcangyfrif gan weithredwyr, mae hyn wedi'i nodi â (*) yn dilyn nifer yr ymwelwyr yn 2017 yn adran 8 tuag at ddiwedd yr adroddiad hwn.

Mynediad

Os oes gan atyniad dâl mynediad, nodir y tâl mynediad ar gyfer tymor prysur 2017. Os nad yw hyn yn hysbys gadewir y tâl mynediad yn wag.

Talfyriadau

CATEGORI	ACRONYM	ESBONIAD
Rhanbarthau	M	Canolbarth Cymru
	N	Gogledd Cymru
	SE	De-ddwyrain Cymru
	SW	De-orllewin Cymru
Perchenogaeth	Cadw [†]	Cadw (Henebion Cymru)
	LA	Awdurdod Lleol
	AC – NMW	Amgueddfa Cymru
	NRW	Cyfoeth Naturiol Cymru
	NT [†]	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
	PO	Eiddo preifat (perchnogion unigol, sefydliad/ymddiriedolaeth breifat ac ati)
	RSPB	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
Atyniadau twristiaeth	A / A	Atyniad antur / gweithgareddau
	CP	Parc gwledig, gardd, atyniad naturiol arall
	Fferm	Fferm / bridiau prin
	F / D	Atyniad bwyd neu ddiod
	HP	Eiddo hanesyddol, cestyll, caerau, tai hanesyddol, palasau, henebion, safleoedd archeolegol, eiddo hanesyddol arall, canolfannau treftadaeth, mannau addoli
	IND	Atyniad diwydiannol/crefft
	MAG	Amgueddfeydd ac/neu orielau celf, canolfannau celfyddydau
	R / T	Rheilffordd / tramffordd / trafnidiaeth / atyniad trafnidiaeth / teithiau
	SC / T	Canolfan wyddoniaeth/dechnoleg
	Thema	Parciau hamdden, parciau thema
	WL	Bywyd gwyllt neu warchodfa natur
	OTH	Atyniad arall
Math o gyflogai	FT	Llawn amser
	PT	Rhan amser
	UV	Gwirfoddolwr di-dâl

[†] Bydd atyniadau yn y categorïau perchnogaeth Cadw neu Ymddiriedolaeth Genedlaethol ond yn gallu cael eu rheoli gan sefydliadau o'r fath.

Drwy gydol yr adroddiad hwn, mae samplau o 10 neu lai yn cael eu huwchleuo yn goch i ddangos yr angen i gymryd gofal wrth ddehongli'r canlyniadau.

i. Ymweliadau 2017

- Gwnaed 18.6 miliwn o ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru a gymerodd ran yn arolwg 2017: Roedd 61% o'r ymweliadau hyn yn ymwneud ag atyniadau am ddim ac roedd 39% yn ymwneud ag atyniadau â thâl.
- Gan fod mwyafrif yr atyniadau mawr yn cymryd rhan yn yr arolwg, amcangyfrifir bod cyfanswm nifer yr ymweliadau a gofnodwyd yn cyfrif am fwy nag 80% o gyfanswm yr ymweliadau â'r holl atyniadau yng Nghymru. Ymhlith yr holl atyniadau a wnaeth ymateb i'r arolwg, roedd y 23 a wnaeth nodi mwy na 200,000 o ymwelwyr yn cyfrif am bron i hanner yr holl ymweliadau a gofnodwyd yn 2017.
- Cafodd yr atyniadau a gymerodd rhan yng Ngogledd Cymru y nifer uchaf o ymweliadau yn 2017 (39.5%), tra chafodd yr atyniadau yng Nghanolbarth Cymru'r nifer isaf o ymweliadau (5.5%).
- Gwnaeth pob atyniad a ymatebodd i'r arolwg dderbyn cyfartaledd o 78,620 o ymweliadau yn 2017: roedd nifer cyfartalog yr ymweliadau ar ei uchaf (105,177) yn Ne-ddwyrain Cymru, ac ar ei isaf yng Nghanolbarth Cymru (22,964).
- Eiddo hanesyddol, amgueddfeydd ac orielau celf a dderbyniodd y nifer uchaf o ymweliadau yn gyffredinol (gyda phob un yn cyfrif am oddeutu 20% o'r holl ymweliadau).
- Roedd bron i bedwar allan o 10 ymweliad ag atyniadau yng Nghymru yn 2017 (39.7%) yn ymweliadau ag atyniadau sy'n eiddo preifat (3.8miliwn i atyniadau am ddim a 3.6miliwn i atyniadau â thâl).

ii. Ymweliadau 2016 - 2017

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn edrych ar dueddiadau yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru, gan gymharu ffigurau yn 2016 a 2017. Noder bod yr adran hon ond yn ymwneud â'r atyniadau hynny a wnaeth ddarparu data yn ystod **y ddwy flynedd** (143 o atyniadau).

- Cafwyd cynnydd o 7.1% yn nifer yr ymweliadau â'r atyniadau hyn o 2016 i 2017.

- Yr atyniadau hynny a oedd am ddim a welodd y cynnydd uchaf o ran nifer yr ymwelwyr o un flwyddyn i'r llall, gyda chynnydd o 9.8% (8.08 miliwn i 8.87 miliwn) tra gwelwyd cynnydd o 3.6% (6.05 miliwn i 6.26 miliwn) yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau â thâl.
- Cynyddodd nifer yr ymweliadau ag atyniadau ym mhob ardal o Gymru ar wahân i'r De-orllewin, lle gwelwyd gostyngiad bach o 2.3% o 2016 i 2017; Gogledd Cymru a welodd y cynnydd uchaf o un flwyddyn i'r llall (14%).
- Cafwyd cynnydd o 13.7% yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau sy'n eiddo preifat o 2016 i 2017, tra gwelodd atyniadau megis Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Cadw, yr Awdurdod Lleol, RSPB hefyd gynnydd sylweddol. Mewn cyferbyniad â hyn, bu gostyngiad o 10.7% yn nifer yr ymweliadau â safleoedd Cyfoeth Naturiol Cymru o un flwyddyn i'r llall.
- Bu cynnydd o ychydig dros 4% yn y tâl mynediad i oedolion o 2016 i 2017, i £9.03 (cynnydd o £8.65 yn 2016); bu cynnydd tebyg hefyd mewn tâl mynediad i blant (o £5.13 yn 2016 i £5.35 yn 2017).
- Roedd tâl mynediad i oedolion ar ei uchaf yng Ngogledd Cymru (£9.70 ar gyfartaledd), a gwelwyd y taliadau isaf yn Ne-orllewin Cymru (£6.45 ar gyfartaledd). O ran categori atyniad, atyniadau antur/ gweithgareddau a gododd y tâl mynediad uchaf i oedolion (£18.40 ar gyfartaledd), tra gwelwyd y taliadau mynediad isaf mewn amgueddfeydd ac orielau celf (£4.53 ar gyfartaledd).

iii. Gweithrediadau

- Gwnaeth bron i hanner yr atyniadau a gymerodd ran (47%) nodi cynnydd mewn refeniw gros yn 2017 o gymharu â 2016, lle nododd pedwar allan o 10 fod eu refeniw yn debyg; dim ond un allan o wyth a nododd fod eu refeniw gros wedi disgyn o un flwyddyn i'r llall (i lawr o un allan o bump yn 2016).
- Ar y cyfan, gwnaeth yr atyniadau a gymerodd ran nodi cynnydd o 3.1% mewn refeniw gros yn 2017 o gymharu â 2016. Gwelodd parciau gwledig a gerddi'r cynnydd uchaf (+11.7%), wedi'u dilyn gan atyniadau bywyd gwyllt / gwarchodfeydd natur (+9.1%), canolfannau gwyddoniaeth / technoleg (+8%) ac atyniadau bwyd neu ddiod (+7.5%).
- Gan droi at staffio, yn debyg i 2016, gwirfoddolwyr di-dâl oedd yn cyfrif am y gyfran uchaf o weithwyr mewn atyniadau a gymerodd ran yn arolwg 2017 (63%). Roedd staff llawn amser yn cyfrif am ychydig yn fwy nag un allan o bump (20.7%) o'r gweithwyr yn 2017, tra bod staff rhan amser yn cyfrif am gyfran ychydig yn is (16.3%).

- Ni welodd y mwyafrif o'r atyniadau unrhyw newid yn eu gwariant marchnata yn 2017 o gymharu â 2016, lle nododd tri allan o bedwar (76.4%) ei fod yn debyg. Nododd 13% ychwanegol ei fod wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall tra nododd 11.6% ei fod wedi gostwng.

iv. Proffil ymwelwyr

- Ar gyfer yr holl fathau o atyniadau ac eithrio'r categori 'Arall' (a oedd yn cynnwys dwy ganolfan gweithgareddau dan do), oedolion oedd mwyafrif yr ymwelwyr (71.6%) Atyniadau bwyd neu ddiod, atyniadau diwydiannol/ crefft ac amgueddfeydd ac orielau a dderbyniodd y gyfran uchaf o ymwelwyr a oedd yn oedolion, tra bod y categori atyniad 'arall' a chanolfannau gwyddoniaeth / technoleg yn fwyaf tebygol o ddenu plant.
- Roedd bron i hanner yr ymwelwyr â'r atyniadau a gymerodd ran yng Nghymru yn 2017 yn ymwelwyr lleol (45.3%) gyda phedwar allan o 10 (40.1%) yn dod o weddill y DU a thua un allan o 10 (10.7%) yn dod o dramor.
- Eiddo hanesyddol a pharciau gwledig / gerddi a gafodd gyfran uchaf yr ymwelwyr o dramor yn 2017, tra bod yr un atyniad â thema yn y sampl, fferm/bridiau prin, atyniadau bwyd neu ddiod, atyniadau antur / gweithgareddau ac atyniadau bywyd gwyllt neu warchodfeydd natur yn fwyaf tebygol o ddenu ymwelwyr lleol. Cafodd atyniadau rheilffordd / tramffordd a thrafnidiaeth y gyfran fwyaf o ymwelwyr o weddill y DU.
- Gwnaeth grwpiau a drefnwyd a theithiau tywys gyfrannu at 13.1% o'r holl ymwelwyr â'r atyniadau a gymerodd ran yn 2017. Roedd cyfran yr ymwelwyr mewn grwpiau/teithiau tywys lawer yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer canolfannau gwyddoniaeth/technoleg a'r categori atyniad 'arall' (42% a 36.7% yn y drefn honno).

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Mae Croeso Cymru wedi bod yn cynnal yr Arolwg o Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth ers 1973. Cylch gorchwyl y gwaith ymchwil yw:

- Pennu ac adrodd ar nifer yr ymwelwyr ag atyniadau ledled Cymru
- Dadansoddi data a gasglwyd am nifer yr ymwelwyr i nodi tueddiadau cyfredol
- Darparu dadansoddiad cymharol ychwanegol o ddata wedi'i gynnwys yn yr arolwg gan gynnwys ffigurau ymwelwyr, gweithrediadau, referniw, marchnata ac adnoddau dynol
- Dadansoddi data yn unol â'r categorïau atyniadau, ledled pedwar rhanbarth Cymru, a pholisi tâl mynediad (atyniadau am ddim o gymharu ag atyniadau â thâl).

1.2 Diffiniad o atyniad twristiaeth

Mae'r gwaith ymchwil yn defnyddio'r diffiniad o atyniad twristiaeth¹ y cytunwyd arno gan y pedwar Bwrdd Croeso Cenedlaethol ar gyfer arolwg 2001 lle mae atyniad twristiaid yn:

".....Atyniad, lle mae'n bosibl codi tâl mynediad ar gyfer yr unig ddiben o ymweld â golygfeydd. Rhaid i'r atyniad fod yn gyrchfan gwibdaith barhaol wedi'i sefydlu, gyda'i brif bwrpas i ganiatáu mynediad i adloniant, diddordeb neu addysg, yn hytrach na bod yn allfa manwerthu yn bennaf neu'n lleoliad ar gyfer perfformiadau chwaraeon, theatr neu ffilm.

Rhaid iddo fod yn agored i'r cyhoedd heb archebu o flaen llaw, am gyfnodau cyhoeddedig o'r flwyddyn a dylai allu denu ymwelwyr dydd neu dwristiaid yn ogystal â thrigolion lleol. Yn ogystal, rhaid i'r atyniad fod yn un busnes unigol, o dan reolaeth unigol, fel y gall ateb cwestiynau economaidd ar referniw,

¹Mae'r diffiniad hwn yn cael effaith ar Ganolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig', a fyddai'n cael ei hepgor o'r gwaith ymchwil hwn. Nid yw Canolfan Mileniwm Cymru yn perthyn yn uniongyrchol i'r diffiniad uchod o atyniad, am nad yw'n 'fusnes unigol, o dan reolaeth unigol', a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau. Nid yw nifer yr ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae prif ddiben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr (e.e. gwerthiannau tocynnau / casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan Mileniwm Cymru ei chynnwys yn y tudalennau canlynol, gan gydnabod nad yw'n cyfateb i'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth ei chymharu â chofnodion eraill.

cyflogaeth ac ati, a rhaid ei fod yn derbyn refeniw yn uniongyrchol gan yr ymwelwyr."

1.3 Amcanion

Diben yr arolwg hwn yw monitro tueddiadau yn y sector atyniadau twristiaeth yng Nghymru er mwyn darparu gwell dealltwriaeth o'r sector i sefydliadau diwydiant a sefydliadau'r sector cyhoeddus a dosbarthu'r canfyddiadau mewn ffordd ddefnyddiol a gwerthfawr i'r diwydiant ehangach.

1.4 Cefndir economaidd a hinsoddol 2017

Mae economi a hinsawdd y DU yn ffactorau allweddol wrth ystyried twristiaeth gartref a bydd eu heffaith yn cael ei hadlewyrchu yn y ffigurau yn yr adroddiad hwn.

Crynodeb o economi'r DU ar gyfer 2017

Gwelodd y flwyddyn yn ei chyfanrwydd ostyngiad mewn cyfraddau mewnfudo a gwelwyd yr economi'n arafu yn dilyn refferendwm Brexit ym mis Mehefin 2016.

Disgynnodd twf yn yr economi nôl i 1.7% yn nhri chwarter cyntaf 2017 a arweiniodd ato'n disgyn i waelod cenhedloedd G7. Gwelodd y sector marchnata welliant amlwg yn ystod y cyfnod hwn, fodd bynnag, gyda chynnydd o 3.3% o fis Hydref 2016 i 2017 yn sgîl y galw mawr gan brynwyr tramor yn dilyn dibrisiant sterling a chynnydd mewn twf byd-eang. Gwnaeth cyfraddau mewnfudo net i'r DU dros y flwyddyn hyd at Fehefin 2017 ostwng i 230,000, mwy na 100,000 yn llai na'r cyfnod 12 mis cyn refferendwm Brexit.

Cafwyd cynnydd o 0.25% yng nghyfradd sylfaen Banc Lloegr ym mis Tachwedd i 0.5%, y cynnydd cyntaf mewn cyfradd llog yn y DU ers degawd, a sbardunwyd gan gynnydd mewn chwyddiant. Fodd bynnag, parhaodd cyfraddau llog ar lefel nodweddiadol o isel. Gwnaeth chwyddiant dros y flwyddyn hyd at fis Tachwedd gynyddu i 3.1% ac roedd ar ei lefel uchaf ers Mawrth 2012, gyda dibrisiant mewn sterling ers y bleidlais Brexit yn cael effaith ar y prisiau uwch mewn siopau. Ni lwyddwyd i weld cynnydd mewn cyflogau, er gwaethaf y cwmp mewn diweithdra i 4.3% o fewn y flwyddyn, sef y lefel isaf mewn 42 mlynedd.

Bu cynnydd o 4.5% mewn prisiau tai ledled y DU yn ystod y flwyddyn hyd at Hydref 2017, sy'n golygu bod pris tŷ cyffredin wedi cynyddu i £223,807, yn ôl y

mynegai prisiau tai swyddogol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Bu 2017 yn flwyddyn lle gwelwyd y nifer uchaf erioed o ymwelwyr â'r DU, gyda mwy na 39.2 miliwn o deithiau yn gwario £24.5 biliwn - y swm uchaf erioed. Yn ystod y flwyddyn, bu 1.08 miliwn o deithiau yng Nghymru gan ymwelwyr tramor, cynnydd o 0.5% o'i gymharu â 2016. Fodd bynnag roedd y gwariant ar deithiau i Gymru yn llai yn 2017 o gymharu â 2016.

Bu cwymp yn y teithiau dros nos a'r gwariant gan breswylwyr y DU yng Nghymru yn 2017 i ychydig dros naw miliwn a £1.6 miliwn wedi'i wario gan barhau â'r duedd yn 2016. Roedd hyn yn dilyn tair blynedd o dwf cryf rhwng 2013 a 2015. Bu cynnydd mewn teithiau dros nos ledled y DU yn ei gyfanrwydd, fodd bynnag, gyda mwy na 59 miliwn o wyliau gartref yn cael eu cymryd gan breswylwyr y DU yn 2017, a oedd yn fwy na'r lefel uchaf flaenorol o wyliau gartref yn 2009.

Bu cynnydd yn y gwariant gan breswylwyr y DU ar wibdeithiau yn 2017, a hynny i £4.3 biliwn, y lefel uchaf o wariant ers 2012. Bu rhywfaint o leihad yn nifer y gwibdeithiau a wnaed i Gymru yn 2017, gydag ychydig o dan 100 miliwn o deithiau yn ystod y flwyddyn. Ar y cyfan, cafwyd gostyngiad yn nifer y gwibdeithiau a'r gwariant yn y DU yn 2017.

Nodwyd perfformiad cadarnhaol gan fusnesau twristiaeth Cymru yn 2017, wrth i fwy o fusnesau nodi cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ac yn yr elw a wnaed, o'i gymharu â 2016.

Crynodeb hinsoddol ar gyfer 2017

Ar y cyfan, roedd 2017 rywfaint yn gynhesach na'r arfer yn y DU, a dyma'r bumed flwyddyn gynhesaf ers i gofnodion y Swyddfa Dywydd ddechrau yn 1910. Roedd y misoedd o Chwefror hyd at fis Mehefin i gyd yn gynhesach na'r arfer, ond yn ystod ail hanner y flwyddyn, gwelsom y tymheredd yn debycach i'r arfer, ac eithrio mis Hydref cynnes. Gwelodd cyfnod poeth ym mis Mehefin y tymheredd uchaf erioed y mis hwnnw, ers dros 40 mlynedd.

Roedd y mwyafrif o leodd o fewn 10% i'r cyfartaledd blyneddol o ran glaw; roedd rywfaint yn sychach yng nghanol a gogledd yr Alban a nifer o ardaloedd yng nghanol a de Lloegr, ond rywfaint yn wlypach yng ngorllewin Cymru a gogledd-orllewin Lloegr. Roedd 2017 yn flwyddyn ychydig yn fwy heulog na'r arfer yn y DU ar y cyfan, gyda fwy o gyfnodau heulog na'r arfer yn y gogledd a'r dwyrain, ond llai na'r arfer mewn rhai ardaloedd gorllewinol. Roedd y misoedd a oedd yn fwy heulog na'r arfer yn cynnwys Ionawr, Mawrth, Mai, Tachwedd a Rhagfyr, ond roedd Chwefror a Hydref yn ddiflas.

2. Methodoleg

2.1 Cynnal y gwaith ymchwil

Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer arolwg 2017 rhwng Mai ac yn gynnar ym mis Gorffennaf 2018. Ni ddechreuwyd y gwaith maes tan ar ôl cyfnod y Pasg pan oedd rhywfaint o'r atyniadau llai o faint ar agor yn ystod y tymor. Cyn i'r gwaith maes ddechrau, gwnaed rhywfaint o adnewyddu ar y gronfa ddata er mwyn sicrhau ei bod mor gyfredol â phosibl ac yn cynnwys yr holl gyfeiriadau e-bost a manylion cyswllt ar gyfer pob atyniad.

Ar gyfer 2017, roedd y rhan fwyaf o'r gwaith maes wedi'i wneud drwy arolwg ar-lein, er bod rhai atyniadau wedi dewis e-bostio ffurflen wedi'i chwblhau yn ôl neu ateb y cwestiynau dros y ffôn.

Anfonwyd dolen gyswllt i'r arolwg ar-lein at y 490 o atyniadau unigol ar y gronfa ddata drwy neges e-bost ar 9 Mai 2018. Ynghlwm wrth y neges e-bost roedd ffurflen a oedd yn nodi'r wybodaeth y byddai'r arolwg yn gofyn amdani, fel y gallai'r atyniadau sicrhau ei bod wrth law cyn dechrau ar yr arolwg. Yn dilyn hyn cafwyd dau gam o negeseuon e-byst yn eu hatgoffa, a dau gam o alwadau atgoffa dros y ffôn i'w helpu i gael cymaint o ymateb â phosibl yn ystod diwedd mis Mai a mis Mehefin. Roedd yr arolwg hwn a holl ddeunyddiau'r arolwg ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Yn ogystal â hyn, gwnaeth Beaufort ymdrechion annibynnol i roi hwb i'r ymateb, gan gysylltu â sefydliadau a oedd â niferoedd mawr o atyniadau yng Nghymru ar wahân i ffigurau ymwelwyr. Roedd y rhain yn cynnwys Amgueddfa Cymru, Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac RSPB Cymru. At ei gilydd, fe wnaeth y sefydliadau hyn ddarparu data ar gyfer 81 o atyniadau.

Daeth yr arolwg hwn i ben ar 2 Gorffennaf 2018, a dadansoddwyd yr ymatebion yn dilyn hyn.

Roedd yr holiadur yn seiliedig ar yr holiadur a ddefnyddiwyd yn y gorffennol i sicrhau cymhared a'r gallu i fonitro data tueddiadau, er bu rhai mân newidiadau ers 2016 (gweler Atodiad 1).

2.2 Dosbarthiad a chyfradd ymateb yr arolwg

Gwahoddwyd cyfanswm o 571 o atyniadau a oedd yn ateb y diffiniad o atyniad twristiaeth, i gymryd rhan yn yr arolwg. Mae cyfradd yr atebion ar gyfer y flwyddyn hon a'r blynyddoedd cynharach ar gael yn Nhabl 2.1 drosodd:

Tabl 2.1: Cyfradd ymateb

	2017	2016*	2014	2013	2012
Nifer yr atyniadau y cysylltwyd â nhw	571	609	478	478	481
Atyniadau a gwblhaodd yr arolwg	237 (42%)	216 (35%)	146 (30%)	173 (36%)	190 (40%)
Atyniadau nad oeddent yn gallu darparu ffigurau	1 (0.2%)	Amherthnasol	9 (2%)	10 (2%)	25 (5%)
CYFANSWM Y GYFRADD YMATEB	238 (42%)	216 (35%)	155 (32%)	183 (38%)	215 (47%)

*Cynhaliwyd arolwg cyfyngedig yn fewnol gan Croeso Cymru yn 2015, felly nid oes unrhyw ddata cymharol ar gael ar gyfer y flwyddyn hon

Roedd yr ymateb i'r arolwg yn 2017 yn cyfateb i 42%, a oedd yn uwch nag unrhyw flwyddyn ers 2012, a dychwelwyd 238 o ymatebion i'r arolwg, sef y nifer fwyaf ers 2009. Roedd 237 o'r 238 atyniad a wnaeth ymateb i'r arolwg yn ystod 2017 yn gallu darparu niferoedd yr ymwelwyr. Darparodd atyniad arall ddata yn rhy hwyr i gael ei gynnwys yn y cyfrifiadau ym mhrif ddarn yr adroddiad, ond mae nifer yr ymweliadau ar gyfer 2017 wedi'u rhestru yn Atodiad II er mwyn cyflawnrwydd.

Er mwyn asesu dibynadwyedd y ffigurau ymwelwyr a ddarparwyd, gwnaeth 225 o'r 237 o'r gweithredwyr a ddarparodd ddata nodi pa ddulliau y bu iddynt eu defnyddio i gyfrifo eu ffigurau: dangosir y canlyniadau yn Nhabl 2.2 drosodd. Mae'r ffigurau yn creu cyfanswm sy'n fwy na 100% oherwydd soniwyd am nifer o ddulliau gan rai atyniadau.

Tabl 2.2:Nifer yr ymwelwyr - dull cofnodi

Dull a ddefnyddiwyd yn 2017	Nifer yr atyniadau	% atyniadau a wnaeth ddarparu data
Gwerthiant tocynnau a / neu werthiant grŵp	95	42.2%
Cyfrif â llaw	76	33.8%
Cyfrif mecanyddol / electronig	51	22.7%
Amcangyfrif yn unig	17	7.6%
Gwnaed amcangyfrif ar sail cyfrif y sampl	8	3.6%
Arall	22	9.8%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar ddulliau cyfrif (225)

* Dulliau eraill yn cynnwys swm y maes parcio x 2, swm y beiciau a cherddwyr a'r gwerthiant mewn ystafelloedd te

SYLWER: gellir cofnodi mwy nag un dull o gofnodi

3. Y deg atyniad uchaf am ddim a'r rhai â thâl

3.1 Y deg atyniad uchaf â thâl

Yr atyniad â thâl a nododd y nifer fwyaf o ymwelwyr yn 2017, fel yn ystod y blynyddoedd blaenorol oedd Canolfan Hamdden a Pharc Dŵr yr LC yn Abertawe (796,149 o ymwelwyr). Cafwyd 1.5% o gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r LC yn 2017 o 784,522 yn 2016.

Roedd chwech o'r atyniadau â thâl a oedd o fewn y 10 uchaf wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru, gyda dau yn Ne-orllewin Cymru a dau yn Ne-ddwyrain Cymru. Cwmnïau preifat oedd yn berchen ar bedwar allan o'r 10 atyniad, ac roedd y chwech a oedd yn weddill yn eiddo i awdurdodau lleol, Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (dau yr un).

Mae pedwar o'r atyniadau hyn sydd yn y 10 uchaf yn eiddo hanesyddol ac mae dau ohonynt yn atyniadau gwyddonol/ technoleg. Mae'r gweddill yn gyfuniad o atyniadau â thema ac atyniadau fferm, parc gwledig a rheilffyrdd/ tramffordd / atyniad trafnidiaeth.

Cafodd y deg atyniad uchaf â thâl a wnaeth ddarparu data ar gyfer 2017 gyfanswm o bron i 3.1 miliwn o ymwelwyr, sef 42% o'r holl ymweliadau a wnaed i atyniadau â thâl yn 2017- am fwy o fanylion gweler Tabl 3.1 isod.

Tabl 3.1: Y deg atyniad uchaf â thâl yn 2017

Enw		Rhanbarth	Categori	Perchennog	Nifer ymwelia dau yn 2016	Nifer ymwelia dau yn 2017	% newid	£ Oedolion
1	Canolfan Hamdden a Pharc Dŵr yr LC	SW	Thema	PO	784,522	796,149	+1.5%	£7.00
2	Fferm Folly	SW	Fferm	PO	490,000	480,000	-2.0%	£14.00
3	Castell Caerdydd	SE	HP	LA	301,349	319,131	+5.9%	£13.00
4	Gardd Bodnant	N	CP	NT	242,898	255,949	+5.4%	£14.60
5	Canolfan Ymwelwyr Mynydd Gwefru	N	SC/T	PO	NP*	250,000	-	£9.00
6	Castell Conwy	N	HP	Cadw	208,887	221,652	+6.1%	£8.95
7	Tramffordd Pen y Gogarth	N	R/T	LA	208,850	205,495	-1.6%	£7.50
8	Castell Caernarfon	N	HP	Cadw	195,151	204,675	+4.9%	£8.95
9	Techniquet	SE	SC/T	PO	190,000	189,000	-0.5%	£8.00
10	Erddig	N	HP	NT	162,911	163,758	+0.5%	£8.80

* NP = heb ei ddarparu

3.2 Y deg atyniad uchaf am ddim

O blith yr atyniadau am ddim a wnaeth ddarparu data yn 2017, Canolfan Mileniwm Cymru a gafodd y nifer fwyaf o ymwelwyr (bron i 1.1. miliwn); fodd bynnag, roedd nifer yr ymwelwyr â'r atyniad hwn yn 2017 wedi gostwng 14.6% o'u lefel yn 2016.

Y 10 atyniad uchaf am ddim yn 2017 oedd amrywiaeth o amgueddfeydd, orielau celf, parciau gwledig, adeiladau hanesyddol, gwarchodfeydd natur ac atyniadau bywyd gwyllt ac un canolfan i ymwelwyr (nodwyd fel 'Arall')

Cafodd y 10 atyniad uchaf am ddim a wnaeth ddarparu data ar gyfer 2017 gyfanswm o bron i bum miliwn o ymwelwyr, sef bron 45% o'r holl ymweliadau a wnaed i atyniadau am ddim yn ystod y flwyddyn - am fwy o fanylion gweler Tabl 3.2 isod.

Tabl 3.2: Y deg atyniad uchaf am ddim yn 2017

Enw	Rhanbarth	Categori	Perchennog	Nifer ymweliad au yn 2016	Nifer ymweliad au yn 2017	% newid
1 Canolfan Mileniwm Cymru 2	SE	MAG	PO	1,264,458	1,082,494	-14.6%
2 Canolfan Ymwelwyr Copa'r Wyddfa	N	CP	PO	465,000	654,077	+40.7%
3 Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru	SE	MAG	AC - NMW	504,402	553,090	+9.7%
4 Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd	SE	MAG	AC - NMW	509,981	539,550	+5.8%
5 Parc Gwledig Pembre	SW	CP	LA	491,641	470,000	-4.4%
6 Gwarchodfa Natur Genedlaethol Niwbwrch	N	WL	NRW	492,259	449,771	-4.5%
7 Traphont Ddŵr Pontcysyllte	N	HP	PO	NP*	333,363	-
8 Canolfan i Ymwelwyr Caerdydd	SE	OTH	LA	277,712	322,671	+16.2%
9 Parc Coedwig Gwydir	N	WL	NRW	NP*	317,405	-
10 Eglwys Gadeiriol Tyddewi	SW	HP	PO	271,700	287,000	+5.7%

* NP = heb ei ddarparu

2 Nid yw Canolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig', yn perthyn yn uniongyrchol i'r diffiniad o atyniad, am nad yw'n 'fusnes unigol, o dan reolaeth unigol', a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau. Nid yw nifer yr ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae diben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr yn bennaf (e.e. gwerthiannau tocynnau / casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan y Mileniwm ei chynnwys yn Adroddiad Atyniadau 2017, ond cydnabyddir nad yw'n bodloni'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth ei chymharu â chofnodion eraill.

4. Ymweliadau 2017

Mae'r adran hon yn darparu dadansoddiad o ddata'r ymweliadau ar gyfer 2017.

Noder: nid yw pob maint sampl yr un peth, am nad oedd yr holl ymatebwyr wedi cwblhau holl adrannau'r holiadur. Mae'r rheini **nad ydynt** yn cwblhau'r adrannau perthnasol wedi cael eu hepgor o'r tablau **ond yn cael eu cynnwys** mewn adrannau eraill lle maent wedi darparu data.

Gwnaed 18.6 miliwn o ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru yn yr arolwg yn 2017; roedd chwech allan o 10 o'r rhain yn ymwneud ag atyniadau am ddim (61%) gyda'r pedwar allan o 10 a oedd yn weddill yn ymwneud ag atyniadau â thâl (39%). Mae poblogrwydd uwch yr atyniadau am ddim yn adlewyrchu'r un sefyllfa mewn blynyddoedd blaenorol.

Gan fod mwyafrif yr atyniadau mawr yn cymryd rhan yn yr arolwg, amcangyfrifir bod cyfanswm nifer yr ymweliadau a gofnodwyd yn cyfrif am fwy nag 80% o gyfanswm yr ymweliadau â'r holl atyniadau yng Nghymru. Ymhlith yr holl atyniadau a wnaeth ymateb i'r arolwg, roedd y 23 a wnaeth nodi mwy na 200,000 o ymwelwyr yn cyfrif am bron i hanner yr holl ymweliadau a gofnodwyd yn 2017 (48.7%) - gweler Tabl 4.1 isod.

Tabl 4.1: Ymweliadau cyffredinol yn ôl y math o fynediad yn 2017

Math o fynediad	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2017	% yr ymweliadau
Am ddim	117	11,309,560	60.7%
Â thâl	120	7,323,474	39.3%
CYFANSWM	237	18,633,034	100.0%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2017

Gwnaeth yr atyniadau a gymerodd ran yng Ngogledd Cymru a De-ddwyrain Cymru dderbyn y nifer uchaf o ymweliadau (39.5% a 33.9% yn y drefn honno), a derbyniodd atyniadau yng Nghanolbarth Cymru y nifer isaf (5.5%).

Yn y mwyafrif o ranbarthau roedd y gwahaniaeth rhwng ymweliadau am ddim ac ymweliadau â thâl yn eithaf hafal; Yn Ne-ddwyrain Cymru fodd bynnag, cafwyd bron i dair gwaith yn fwy o ymweliadau ag atyniadau am ddim o gymharu ag atyniadau â thâl (4.7 miliwn o ymweliadau o gymharu â 1.6 miliwn) - am fwy o fanylion, gweler Tabl 4.2 drosodd.

Tabl 4.2: Ymweliadau cyffredinol yn ôl y math o fynediad a rhanbarth o Gymru yn 2017

Rhanbarth o Gymru	Am ddim			Â thâl			POB UN		
	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2017	%	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2017	%	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2017	%
Canolbarth	22	534,567	2.9%	23	498,827	2.7%	45	1,033,394	5.5%
Gogledd	35	4,304,566	23.1%	47	3,050,647	16.4%	82	7,355,213	39.5%
De-ddwyrain	38	4,688,809 ³	25.2%	22	1,621,813	8.7%	60	6,310,622	33.9%
De-orllewin	22	1,781,618	9.6%	28	2,152,187	11.6%	50	3,933,805	21.1%
CYFANSWM	117	11,309,560	60.7%	120	7,323,474	39.3%	237	18,633,034	100.0%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2017

Mae Tabl 4.3 drosodd yn dangos sut mae cyfran yr **atyniadau** ym mhob rhanbarth yn ymwneud â chyfran yr **ymweliadau**.

Mae gan Ogledd Cymru'r gyfran uchaf o atyniadau a gymerodd ran yn arolwg 2017 (34.6%), tra bod gan Ganolbarth Cymru'r nifer isaf (19%). Mae De-ddwyrain Cymru yn cyfrif am 25.3% o'r atyniadau yn y sampl a De-orllewin Cymru yn cyfrif am 21.1%.

Roedd De-ddwyrain Cymru yn cyfrif am tua un allan o bedwar o gyfanswm yr atyniadau yn 2017 ond un allan o bob tri ymweliad, ac roedd y gwrthwyneb yn wir am Ganolbarth Cymru (a oedd yn cyfrif am 19% o atyniadau ond llai na 6% o ymweliadau).

Gwnaeth pob atyniad a wnaeth ymateb i'r arolwg, dderbyn cyfartaledd o 78,620 o ymweliadau yn 2017: roedd nifer cyfartalog yr ymweliadau fesul atyniad yn 2017 ar ei uchaf yn Ne-orllewin Cymru (105,177) ac ar ei isaf yng Nghanolbarth Cymru (22,964).

³ Mae'r ffigur hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig', nad yw'n perthyn yn uniongyrchol i'r diffiniad o atyniad, am nad yw'n 'fusnes unigol, o dan reolaeth unigol', a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau. Nid yw nifer yr ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae prif ddiben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr (e.e. gwerthiannau tocynnau / casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan y Mileniwm ei chynnwys yn y tudalennau dilynol, gan gydnabod nad yw'n cyfateb i'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth ei chymharu â chofnodion eraill.

Tabl 4.3: Nifer yr atyniadau a'r ymweliadau fesul rhanbarth yn 2017, yn ogystal â nifer cyfartalog yr ymwelwyr yn 2017 a 2016 (gwahanol samplau)

Rhanbarth o Gymru	Sampl	% yr atyniadau	% yr ymweliadau	Nifer cyfartalog yr ymweliadau fesul atyniad yn 2016	Nifer cyfartalog o ymweliadau fesul atyniad yn 2017
Canolbarth	45	19.0%	5.5%	34,324	22,964
Gogledd	82	34.6%	39.5%	84,905	89,698
De-ddwyrain	60	25.3%	33.9%	107,045	105,177 ⁴
De-orllewin	50	21.1%	21.1%	80,455	78,676
CYFANSWM	237	100.0%	100.0%	80,742	78,620

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2017 (237) / 2016 (216)

Eiddo hanesyddol ac amgueddfeydd ac orielau celf a dderbyniodd y nifer uchaf o ymweliadau yn gyffredinol yng Nghymru yn 2017, gan gyfrif am 22.2% a 21.9% o'r holl ymweliadau yn y drefn honno. Cafodd atyniadau bywyd gwyllt a gwarchodfeydd natur a pharciau gwledig 17.3% ac 16.7% o ymweliadau yn y drefn honno yn ystod y flwyddyn.

Roedd mwyafrif yr ymweliadau a wnaed yn 2017 ag amgueddfeydd ac orielau celf, atyniadau bywyd gwyllt a gwarchodfeydd natur a pharciau gwledig/gerddi yn ymweliadau ag atyniadau am ddim yn hytrach na rhai â thâl:

- Gwnaed bron i 3.9 miliwn o ymweliadau ag amgueddfeydd ac orielau am ddim yng Nghymru yn 2017, o gymharu â 220,000 o ymweliadau ag amgueddfeydd ac orielau â thâl
- Gwnaed bron i 2.6 miliwn o ymweliadau ag atyniadau bywyd gwyllt a gwarchodfeydd natur am ddim o gymharu â 592,000 o ymweliadau â thâl
- Gwnaed bron i 2.5 miliwn o ymweliadau â pharciau gwledig / gerddi am ddim o gymharu â bron i 588,000 o ymweliadau â thâl

⁴ Mae'r ffigur hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig', nad yw'n perthyn yn uniongyrchol i'r diffiniad o atyniad, am nad yw'n 'fusnes unigol, o dan reolaeth unigol', a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau. Nid yw nifer yr ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan y Mileniwm yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae prif ddiben eu hymwelid yn ymwneud â'r theatr (e.e. gwerthiannau tocynnau/casglu tocynnau ac ati.). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan y Mileniwm ei chynnwys yn y tudalennau canlynol gan gydnabod nad yw'n cyfateb i'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth ei chymharu â chofnodion eraill.

Mae Tabl 4.4. isod yn darparu mwy o fanylion ynghylch nifer yr ymweliadau ag atyniadau am ddim a rhai â thâl, yn ôl y math o atyniad.

Tabl 4.4: Ymweliadau cyffredinol yn ôl y math o fynediad a chategori atyniad yn 2017

Categori'r atyniad	Am ddim			Â thâl			POB UN		
	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2017	%	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2017	%	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2017	%
Atyniad antur / gweithgareddau	2	214,500	1.2%	5	204,402	1.1%	7	418,902	2.2%
Parc gwledig / gardd	14	2,522,853	13.5%	8	587,789	3.2%	22	3,110,642	16.7%
Fferm / bridiau prin	2	25,000	0.1%	3	530,000	2.8%	5	555,000	3.0%
Atyniad bwyd neu ddiod	2	157,366	0.8%	2	20,465	0.1%	4	177,831	1.0%
Eiddo hanesyddol	14	1,338,522	7.2%	51	2,795,193	15.0%	65	4,133,745	22.2%
Atyniad diwydiannol/crefft	7	207,446	1.1%	4	165,874	0.9%	11	373,320	2.0%
Amgueddfa / oriel gelf	41	3,868,596	20.8%	18	220,198	1.2%	59	4,088,794	21.9%
Rheilffordd / tramffordd /teithio/ trafrnidiaeth / teithiau	2	22,757	0.1%	12	860,827	4.6%	14	883,584	4.7%
Canolfan wyddoniaeth/dechnoleg	1	3,000	0.0%	4	514,447	2.8%	5	517,447	2.8%
Parc thema / parc hamdden	-	-	-	1	796,149	4.3%	1	796,149	4.3%
Atyniad bywyd gwyllt neu warchodfa natur	31	2,626,819	14.1%	10	592,624	3.2%	41	3,219,443	17.3%
Atyniad arall	1	322,671	1.7%	2	35,506	0.2%	3	358,177	1.9%
CYFANSWM	117	11,309,560	60.7%	120	7,323,474	39.3%	237	18,633,034	100.0%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2017

Noder: gwnaed rhai newidiadau i gategorïau'r atyniadau yn 2016

SYLWER: Rhybudd: sampl maint bach

Mae Tabl 4.5 drosodd yn dangos y cyfraddau cymharol o atyniadau a wnaeth ymateb i arolwg 2017 ochr yn ochr â chyfran gymharol yr ymweliadau, yn ôl categori atyniad.

Mae eiddo hanesyddol ac atyniadau diwydiannol/crefft yn cyfrif am bron i un allan o dri o'r holl atyniadau a wnaeth ymateb i'r arolwg (32.0%); fodd bynnag, mae ymweliadau â'r mathau hyn o atyniadau yn cyfrif am lai nag un allan o bedwar o'r holl ymweliadau (24.2%) Mae amgueddfeydd ac orielau celf hefyd yn cyfrif am gyfran ychydig yn uwch o'r atyniadau yng Nghymru na'r

ymweliadau a wnaed (24.9% o'r atyniadau ond dim ond 21.9% o ymweliadau). I'r gwrthwyneb, gwnaeth parciau gwledig a gerddi (sy'n fwy tebygol o fod am ddim na rhai â thâl) dderbyn cyfran anghymesur o uchel o ymweliadau, gan gyfrif am 9.3% o atyniadau ond 16.7% o ymweliadau yn 2017 - gweler Tabl 4.5.

Tabl 4.5: Cyfran yr atyniadau a'r ymweliadau fesul categori'r atyniad yn 2017, yn ogystal â nifer cyfartalog yr ymwelwyr yn 2017 a 2016 (gwahanol samplau)

Categori atyniad	Sampl	% yr atyniadau	% yr ymweliadau	Nifer cyfartalog yr ymweliadau fesul atyniad yn 2016	Nifer cyfartalog yr ymweliadau fesul atyniad yn 2017
Atyniad antur / gweithgareddau	7	3.0%	2.2%	89,341	59,843
Parc gwledig / gardd	22	9.3%	16.7%	140,433	141,393
Fferm / bridiau prin	5	2.1%	3.0%	490,000	111,000
Atyniad bwyd neu ddiod	4	1.7%	1.0%	20,779	44,458
Eiddo hanesyddol	65	27.4%	22.2%	59,568	63,596
Atyniad diwydiannol/crefft	11	4.6%	2.0%	34,539	33,938
Amgueddfa/oriel gelf	59	24.9%	21.9%	65,620	69,302
Rheilffordd / tramffordd / trafnidiaeth	14	5.9%	4.7%	48,445	63,113
Canolfan wyddoniaeth/dechnoleg	5	2.1%	2.8%	70,779	103,489
Parc thema / parc hamdden	1	0.4%	4.3%	784,522	796,149
Atyniad bywyd gwyllt neu warchodfa natur	41	17.3%	17.3%	103,368	78,523
Atyniad arall	3	1.3%	1.9%	82,867	119,392
CYFANSWM	237	100.0%	100.0%	80,742	78,620

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2017 (237) / 2016 (216)

Noder: gwnaed rhai newidiadau i gategoriâu'r atyniadau yn 2016

SYLWER: Rhybudd: sampl maint bach

Gwnaeth yr atyniadau sy'n eiddo preifat yng Nghymru gyfrif am y gyfran uchaf o ymweliadau yn 2017 (39.7%), gyda niferoedd tebyg o ymweliadau ag atyniadau â thâl ac atyniadau am ddim sy'n eiddo preifat (3.6 miliwn a 3.7 miliwn yn y drefn honno).

Derbyniodd eiddo sy'n berchen i awdurdodau lleol 20.5% o'r holl ymweliadau â'r atyniadau a gymerodd ran yn 2017, gyda chryn dipyn yn fwy o'r rhain yn ymweld ag atyniadau a oedd am ddim (16.5%) yn hytrach nag atyniadau â thâl. Roedd safleoedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfrif am 12.9% o'r ymweliadau yn 2017 ac roedd atyniadau Amgueddfa Cymru yn cyfrif am 9.4%. Roedd yr holl ymweliadau hyn yn rhad ac am ddim am nad yw'r un sefydliad yn codi tâl mynediad.

Roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Cadw yn cyfrif am gyfran debyg o ymweliadau yn 2017 (8.3% a 7.5% yn y drefn honno) gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r rhan fwyaf o atyniadau Cadw yn rhai â thâl.

Tabl 4.6: Ymweliadau cyffredinol yn ôl y math o fynediad a pherchenogaeth yn 2017

Perchenogaeth	Am ddim			Â thâl			POB UN		
	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2017	%	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2017	%	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2017	%
Cadw	2	100,574	0.5%	22	1,289,008	6.9%	24	1,389,582	7.5%
Awdurdod Lleol	32	3,067,418	16.5%	12	760,626	4.1%	44	3,828,044	20.5%
Amgueddfa Cymru	7	1,756,130	9.4%	-	-	-	7	1,756,130	9.4%
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	-	-	-	20	1,542,338	8.3%	20	1,542,338	8.3%
Cyfoeth Naturiol Cymru	27	2,395,217	12.9%	-	-	-	27	2,395,217	12.9%
Eiddo preifat / ymddiriedolaeth	47	3,754,137 ⁵	20.1%	65	3,648,054	19.6%	112	7,402,191	39.7%
RSPB	2	236,084	1.3%	1	83,448	0.4%	3	319,532	1.7%
CYFANSWM	117	11,309,560	60.7%	120	7,323,474	39.3%	237	18,633,034	100.0%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2017

SYLWER: Rhybudd: sampl maint bach

Mae Tabl 4.7 drosodd yn dangos y cyfraddau cymharol o atyniadau a wnaeth ymateb i arolwg 2017 ochr yn ochr â chyfran gymharol yr ymweliadau, yn ôl perchenogaeth.

⁵ Mae'r ffigur hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig', ac nid yw'n perthyn yn uniongyrchol i'r diffiniad o atyniad, am nad yw'n 'fusnes unigol, o dan reolaeth unigol', a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau. Nid yw nifer yr ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae prif ddiben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr (e.e. gwerthiannau tocynnau / casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan Mileniwm Cymru ei chynnwys yn y tudalennau canlynol, gan gydnabod nad yw'n cyfateb i'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth ei chymharu â chofnodion eraill.

Mae atyniadau sy'n eiddo preifat yn cyfrif am bron i hanner y sampl yn 2017 (47.3%) a bron i bedwar allan o 10 ymweliad (39.7%). Mae atyniadau sy'n eiddo i'r awdurdod lleol yn cyfrif am oddeutu un allan o bump o'r atyniadau (18.6%) a chyfran debyg o ymweliadau (20.5%).

Mae'r atyniadau sy'n eiddo i Cadw yn cynrychioli 10.1% o'r sampl ond cyfran ychydig yn llai o ymweliadau (7.5%) tra bod Amgueddfa Cymru yn cyfrif am 3.0% o'r sampl ond 9.4% o'r holl ymweliadau yn 2017 - gweler Tabl 4.7 isod am fwy o fanylion.

Tabl 4.7: Nifer yr atyniadau a'r ymweliadau yn ôl perchenogaeth, yn ogystal â nifer cyfartalog yr ymwelwyr yn 2017 a 2016 (gwahanol samplau)

Perchenogaeth	Sampl	% yr atyniadau	% yr ymweliadau	Nifer cyfartalog yr ymweliadau fesul atyniad yn 2016	Nifer cyfartalog yr ymweliadau fesul atyniad yn 2017
Cadw	24	10.1%	7.5%	48,751	57,899
Awdurdod Lleol	44	18.6%	20.5%	111,699	87,001
Amgueddfa Cymru	7	3.0%	9.4%	229,565	250,876
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	20	8.4%	8.3%	75,262	77,117
Cyfoeth Naturiol Cymru	27	11.4%	12.9%	178,345	88,712
Perchennog preifat / ymddiriedolaeth	112	47.3%	39.7%	60,676	66,091 ⁶
Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar	3	1.3%	1.7%	68,257	106,511
CYFANSWM	237	100.0%	100.0%	80,742	78,620

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2017 (237) / 2016 (216)

SYLWER: Rhybudd: sampl maint bach

Ymhlith yr holl atyniadau a wnaeth ymateb i arolwg 2017, nododd 23 ohonynt eu bod wedi derbyn 200,000 o ymweliadau neu fwy yn ystod y flwyddyn - roedd yr ymweliadau â'r 23 o atyniadau hyn yn cyfrif am bron i hanner yr holl ymweliadau yn y flwyddyn (48.7%). Nid yw mwyafrif yr atyniadau mwy o faint

⁶ Mae'r ffigur hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig', ac nid yw'n perthyn yn uniongyrchol i'r diffiniad o atyniad, am nad yw'n 'fusnes unigol, o dan reolaeth unigol', a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau. Nid yw nifer yr ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan y Mileniwm yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae prif ddiben eu hymwelid yn ymwneud â'r theatr (e.e. gwerthiannau tocynnau/casglu tocynnau ac ati.). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan y Mileniwm ei chynnwys yn y tudalennau canlynol gan gydnabod nad yw'n cyfateb i'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth ei chymharu â chofnodion eraill.

hyn (15) yn codi tâl am fynediad a gwnaethant dderbyn bron i chwech allan o 10 o'r holl ymweliadau ag atyniadau am ddim (56.1%) Gwnaeth yr wyth atyniad â thâl a oedd â'r nifer uchaf o ymwelwyr gyfrif am gyfran lai o'r holl ymweliadau â thâl yn y flwyddyn (37.3%) - am fwy o fanylion gweler Tabl 4.8 drosodd

Tabl 4.8: Ymweliadau cyffredinol yn ôl y math o fynediad ac amrediad o gyfanswm yr ymweliadau yn 2017

Amrediad o gyfanswm yr ymweliadau	Am ddim			Â thâl			POB UN		
	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2017	%	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2017	%	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2017	%
0 – 1,999	14	10,200	0.1%	10	9,713	0.1%	24	19,913	0.1%
2,000 – 4,999	9	27,323	0.1%	14	43,410	0.2%	23	70,733	0.4%
5,000 – 9,999	13	152,993	0.8%	16	113,740	0.6%	29	266,733	1.4%
10,000 – 19,999	12	169,817	0.9%	12	171,395	0.9%	24	341,212	1.8%
20,000 – 49,999	20	684,394	3.7%	27	882,422	4.7%	47	1,566,816	8.4%
50,000 – 99,999	12	878,193	4.7%	19	1,436,599	7.7%	31	2,314,792	12.4%
100,000 – 149,999	16	1,993,418	10.7%	9	1,133,883	6.1%	25	3,127,301	16.8%
150,000 – 199,999	6	1,053,149	5.7%	5	799,261	4.3%	11	1,852,410	9.9%
200,000 a throsodd	15	6,340,073 ⁷	34.0%	8	2,733,051	14.7%	23	9,073,124	48.7%
CYFANSWM	117	11,309,560	60.7%	120	7,323,474	39.3%	237	18,663,034	100.0%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2017

SYLWER: Rhybudd: sampl maint bach

Gwnaeth bron i chwech allan o 10 o'r atyniadau a gymerodd ran (59%) nodi cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn 2017 o gymharu â 2016, pan ofynnwyd a oedd cyfanswm nifer eu hymwelwyr wedi cynyddu, aros yr un peth neu ostwng o un flwyddyn i'r llall.

⁷ Mae'r ffigur hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig', ac nid yw'n perthyn yn uniongyrchol i'r diffiniad o atyniad, am nad yw'n 'fusnes unigol, o dan reolaeth unigol', a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau. Nid yw nifer yr ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan y Mileniwm yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae prif ddiben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr (e.e. gwerthiannau tocynnau/casglu tocynnau ac ati.). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan y Mileniwm ei chynnwys yn y tudalennau canlynol gan gydnabod nad yw'n cyfateb i'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth ei chymharu â chofnodion eraill.

Gwnaeth cyfran debyg o atyniadau am ddim ac atyniadau â thâl nodi bod nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu yn 2017 (59% a 58% yn y drefn honno), ond gwnaeth cyfran uwch o'r atyniadau â thâl na'r atyniadau am ddim nodi cwymp yn yr ymweliadau o un flwyddyn i'r llall (28% o gymharu â 19%) (gweler Tabl 4.9 isod).

Tabl 4.9: Cynnydd/ gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr yn 2017 o gymharu â 2016

Newid yn niferoedd yr ymwelwyr yn 2017/2016	Cyfanswm atyniadau	Am ddim atyniadau	Â thâl atyniadau
Sampl	210	90	120
Wedi cynyddu	59%	59%	58%
Wedi aros yr un peth	15%	18%	13%
Wedi gostwng	24%	19%	28%
Ddim yn gwybod	2%	4%	1%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata (210)

Roedd y prif resymau a roddwyd gan atyniadau a oedd yn nodi cynnydd yn nifer eu hymwelwyr o un flwyddyn i'r llall yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Gwell marchnata, hysbysebu neu frandio ar gyfer yr atyniad (a grybwyllwyd gan 20 o atyniadau)
- Mwy o ddigwyddiadau, gweithgareddau neu hysbysebu gwell (a grybwyllwyd gan 15)
- Mwy o ymwelwyr â'r ardal (a grybwyllwyd gan 12)
- Oriau agor hirach neu ddiwedd camau diwydiannol (yr olaf yn bennaf yn cyfeirio at Amgueddfa Cymru (a grybwyllwyd gan 12 o atyniadau)
- Mwy o ymwelwyr â'r ardal yn gyffredinol (a grybwyllwyd gan 12)
- Ymwybyddiaeth gynyddol o'r atyniad (a grybwyllwyd gan 8)
- Gwelliannau neu ddatblygiadau i'r atyniad (a grybwyllwyd gan 8)
- Tywydd a oedd yn ffafriol i'r busnes (a grybwyllwyd gan 8)

I'r gwrthwyneb, roedd y rheini a oedd yn dweud bod nifer eu hymwelwyr wedi gostwng yn 2017 o gymharu â 2016 yn priodoli'r gostyngiad yn bennaf i'r canlynol:

- Tywydd gwael (a grybwyllwyd gan 16 o atyniadau)
- Amodau economaidd / Brexit (a grybwyllwyd gan 6)
- Llai o bobl yn ymweld â'r ardal (a grybwyllwyd gan 6)
- Rhan o'r atyniad ar gau neu'n cael ei adfer, neu ar agor am lai o ddyddiau (a grybwyllwyd gan 6).

5. Dadansoddiad cymharol o ymweliadau ag atyniadau twristiaid 2017 / 2016

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych ar dueddiadau yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru, gan gymharu ffigurau ymweld yn 2017 a 2016. Sylwer bod yr adran hon ond yn ymwneud â'r atyniadau hynny a ddarparodd ddata **yn y ddwy flynedd**.

5.1 Cymariaethau cyffredinol

Ymhlith yr atyniadau hynny a ymatebodd i'r arolwg yn y ddwy flynedd (143 i gyd), cafwyd cynnydd o 7.1% yn nifer yr ymweliadau o un flwyddyn i'r llall - gweler tabl 5.1 isod.

Tabl 5.1: Cymharu ffigurau ymweld blynyddol cyffredinol 2017 / 2016

Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2016	Nifer yr ymweliadau yn 2017	Newid canrannol
143	14,127,246	15,136,559	+7.1%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2017 a 2016

Wrth ddadansoddi'r data yn fanylach, cafwyd cynnydd uwch o un flwyddyn i'r llall yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau am ddim o gymharu ag ymweliadau ag atyniadau â thâl, er i'r ddau weld cynnydd (+9.8% ar gyfer atyniadau am ddim o'i gymharu â chynnydd o +3.6% ar gyfer y rhai â thâl) - gweler Tabl 5.2 isod.

Tabl 5.2: Cymharu ffigurau ymweld 2017 / 2016 yn ôl math o fynediad

Math o fynediad	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2016	Nifer yr ymweliadau yn 2017	Newid canrannol
Am ddim	62	8,081,179 ⁸	8,874,999	+9.8%
Â thâl	81	6,046,067	6,261,560	+3.6%
CYFANSWM	143	14,127,246	15,136,559	+7.1%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2017 a 2016

⁸ Mae'r ffigur hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig', ac nid yw'n perthyn yn uniongyrchol i'r diffiniad o atyniad, am nad yw'n 'fusnes unigol, o dan reolaeth unigol', a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau. Nid yw nifer yr ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae prif ddiben eu hymwelriad yn ymwneud â'r theatr (e.e. gwerthiannau tocynnau / casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan Mileniwm Cymru ei chynnwys yn y tudalennau canlynol, gan gydnabod nad yw'n cyfateb i'r diffiniad uchod o atyniad twristiaid ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth ei chymharu â chofnodion eraill.

Cafwyd cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ym mhob rhanbarth o Gymru heblaw am y De-orllewin, lle cafwyd gostyngiad bach o 2.3% o un flwyddyn i'r llall. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yng Ngogledd Cymru (+14.0%) o'i gymharu â +7.3% yn Ne-ddwyrain Cymru a +3.9% yng Nghanolbarth Cymru – gweler Tabl 5.3 isod.

Tabl 5.3: Cymharu ffigurau ymwelwyr blynyddol cyffredinol 2017 / 2016 yn ôl rhanbarth o Gymru

Rhanbarth o Gymru	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2016	Nifer yr ymweliadau yn 2017	Newid canrannol
Canolbarth	25	651,317	676,962	+3.9%
Gogledd	50	4,865,743	5,545,689	+14.0%
De-ddwyrain	37	5,210,179 ⁹	5,593,081	+7.3%
De-orllewin	31	3,400,007	3,320,827	-2.3%
CYFANSWM	143	14,127,246	15,136,559	+7.1%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2017 a 2016

Roedd cynnydd sylweddol mewn ymweliadau ag atyniadau rheilffyrdd / trafnidiaeth yn 2017 (i fyny 13.8% ers 2016), eiddo hanesyddol (i fyny 13.7%), atyniadau diwydiannol / crefft (i fyny 10.1%) a pharciau gwledig (i fyny 9.3%). Dim ond ambell adran welodd ostyngiad ac roedd y rhain yn gyffredinol ar sail fach iawn o un neu ddau atyniad – gweler Tabl 5.4 drosodd.

⁹ Mae'r ffigur hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig', ac nid yw'n perthyn yn uniongyrchol i'r diffiniad o atyniad, am nad yw'n 'fusnes unigol, o dan reolaeth unigol', a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau. Nid yw nifer yr ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae prif ddiben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr (e.e. gwerthiannau tocynnau / casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan Mileniwm Cymru ei chynnwys yn y tudalennau canlynol, gan gydnabod nad yw'n cyfateb i'r diffiniad uchod o atyniad twristiaid ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth ei chymharu â chofnodion eraill.

Tabl 5.4: Cymharu ffigurau ymwelwyr blynyddol cyffredinol 2017 / 2016 yn ôl categori atyniad

Categori atyniad	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2016	Nifer yr ymweliadau yn 2017	Newid canrannol
Antur / gweithgaredd	2	266,646	156,000	-41.5%
Parc gwledig / gardd	16	2,583,332	2,822,444	+9.3%
Fferm	1	490,000	480,000	-2.0%
Atyniad bwyd neu ddiod	1	18,758	18,965	+1.1%
Eiddo hanesyddol	50	3,357,367	3,817,505	+13.7%
